| | |
|---|---|
| **Adrodd i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **6 Gorffennaf 2023** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Alaw Pierce Rheolwr Gwasanaeth, Gofal Cymdeithasol Oedolion a'r Gwasanaeth Digartrefedd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Ann Lloyd, Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaeth Digartrefedd** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Nerys Tompsett, Rheolwr Tîm Diogelu** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych 1 Ebrill - 31 Mawrth 2023** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad perfformiad blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn unol â chanllawiau statudol ac mae'n darparu trosolwg o effaith trefniadau ac arferion diogelu lleol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi trosolwg i'r Aelodau o effaith trefniadau ac arferion Diogelu Lleol ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn y maes gwaith allweddol hwn dros y deuddeg mis diwethaf. Cyfeirio at ddata sy'n adlewyrchu ffigurau a gyflwynir gan yr Awdurdod Lleol yn flynyddol i Uned Ddata Llywodraeth Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad a chydnabod pwysigrwydd ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Y gweithgarwch o ran amddiffyn oedolion dros y 12 mis diwethaf gan ganolbwyntio ar ansawdd gwaith diogelu, gan gynnwys perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru o ymholiadau’n cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod gwaith.

4.2 Cymharu data ar y gweithgarwch dros y 12 mis diwethaf ynghylch Adran 5: Atgyfeiriadau Unigolyn mewn Swydd ag Ymddiriedaeth.

4.3 Gweithgarwch dros y 12 mis diwethaf mewn perthynas â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS).

4.4 Crynodeb o’r cyflawniadau allweddol ar gyfer 2022/23.

Penawdau o Ystadegau 2022 - 23

| Blwyddyn | Adroddiadau (atgyfeiriadau) a dderbyniwyd |
|---|---|
| 2019 - 2020 | 597 |
| 2020 - 2021 | 354 |
| 2021 - 2022 | 324 |
| 2022 - 2023 | 348 |

- Ar y cyfan mae yna ychydig o gynnydd (7%) wedi bod yn nifer yr adroddiadau Oedolion mewn Perygl a dderbyniwyd o’i gymharu â’r un cyfnod y llynedd. Yn gyffredinol, mae lefelau adrodd dros y 3 blynedd diwethaf wedi bod yn eithaf cyson.
- Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i rym ym mis Ebrill 2016, gan ddangos ei lefel uchaf o adroddiadau Oedolion mewn Perygl yn 2018, ac yna dangos arwyddion o ostwng, wrth i’r ‘dyletswydd i adrodd’ ddod yn gliriach weithwyr proffesiynol. Serch hynny, tra bo nifer o adroddiadau wedi cynyddu, nid oedd hyn wedi arwain at y nifer o achosion yn cael eu huwchgyfeirio at gyfarfod strategaeth. Mae Awdurdodau Lleol ledled Gogledd Cymru wedi nodi newid mewn perthynas â nifer o Oedolion mewn Perygl yn ystod Covid, o bosib oherwydd y cyfyngiadau, llai o gyswllt gyda gwasanaethau allanol a/neu deuluoedd, ac efallai bod hyn wedi cyfrannu at y newid hwn. Mae ffigurau yn ymddangos i fod yn debyg i’r blynyddoedd blaenorol, sydd efallai’n dangos bod y ‘dyletswydd i adrodd’ camdriniaeth neu esgeulustod, neu’r perygl o gamdriniaeth wedi dod yn fwy amlwg i weithwyr proffesiynol. Mae tîm diogelu Sir Ddinbych yn gweithio’n agos gydag asiantaethau partner, i sicrhau bod diogelu’n flaenoriaeth, ac yn parhau i dderbyn galwadau ffôn

gan wasanaethau darparu a gweithwyr proffesiynol, sy'n chwilio am gymorth neu gyngor ar faterion diogelu. Caiff y galwadau hyn eu monitro i gefnogi dadansoddiad pellach o unrhyw themâu posibl neu dueddiadau a allai fod yn codi, a allai ofyn am ymagwedd ychwanegol i gefnogi unrhyw gamau gweithredu ehangach yn ymwneud â diogelu.

- Cam-drin corfforol 34% (166) ac esgeulustod 31% (149) oedd y mathau mwyaf cyffredin o gamdriniaeth a nodwyd, a oedd un waith eto'n debyg i'r tueddiadau cenedlaethol. Mae'n bwysig nodi, o edrych ar y data, gellir rhoi gwybod am fwy nag un categori o gamdriniaeth o fewn adroddiad diogelu. (Gweler Atodiad 1 am ddata diogelu 2022 – 23)
- Llynedd, roeddem yn gallu nodi data blwyddyn gyfan mewn perthynas â phroses Adran 5: *Cyhuddiadau / Pryderon am Ymarferwyr a'r sawl mewn Swyddi gydag Ymddiriedaeth.* Rydym wedi gweld cynnydd o 84% mewn atgyfeiriadau adran 5 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Daeth ffynonellau atgyfeiriadau gan Ddarparwyr (41%), y Bwrdd Iechyd (33%), yr Awdurdod Lleol (17%) a'r Heddlu (9%).
- Cynhaliwyd trafodaethau strategaethau ar bob atgyfeiriad Adran 5 i bennu'r camau gweithredu nesaf h.y. cyfarfod trafod strategaeth a/neu gyfarfod strategaeth ffurfiol. Mae'r achosion hynny sydd wedi eu huwchgyfeirio i gyfarfod strategaeth ffurfiol wedi arwain at ganlyniadau sy'n seiliedig ar gydbwysedd o debygolrwydd a oedd yr honiad wedi'i brofi, heb ei brofi, yn fwriadol, wedi'i ddyfeisio neu'n faleisus. (Gweler Atodiad 1 am i gael data diogelu 2022 – 23) O'r achosion a uchgyfeiriwyd i'r cyfarfodydd strategaeth, roedd 37% (7) achos yn destun ymchwiliad troseddol. Ni wnaeth unrhyw achos gyrraedd y trothwy trosedd ar gyfer eu herlyn, ac o ganlyniad cawsant eu hailystyried dan broses nad oedd yn gyfreithiol.

4.5 Dangosyddion Perfformiad

Dim ond un dangosydd perfformiad cenedlaethol sydd yn ymwneud â Diogelu Oedolion ar hyn o bryd: nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith. Rydym wedi parhau i gynnal ein perfformiad, gyda 99.1% o ymholiadau wedi eu cwblhau o fewn y terfyn amser 7 diwrnod gwaith ar gyfer 2022/23. Bu cynnydd yn y nifer cyffredinol yn y cyfnod hwn o'i gymharu â data llynedd. Mae'r lefel uchel hon o berfformiad, ynghyd â'r cynnydd mewn atgyfeiriadau adran 5, yn dangos ymroddiad y tîm, a'u hymrwymiad i ddiogelu dinasyddion Sir Ddinbych sy'n ymddangos i fod yn Oedolion mewn Perygl.

4.6 Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) – gweithgarwch 2022 - 23

- Mae yna gynnydd wedi bod yn y nifer o geisiadau a dderbyniwyd: 469 (11%) o'i gymharu â 423 y llynedd. Gwelodd y flwyddyn flaenorol gynnydd sylweddol o 26%, mae'r cynnydd eleni yn fwy cyson gyda beth a ddisgwylir gan fod lleoliadau'n fwy sefydlog a pharhaol, gydag effeithiau Covid yn dechrau cysoni.
- Cymeradwywyd 238 awdurdodiad, sy'n cyfateb i lynedd ar 236. Mae ffyrdd newydd o weithio yn sgil Covid-19 wedi parhau, ac mae llwyfannau digidol ar gyfer cwblhau asesiadau i gefnogi'r maes gwaith hwn. Mae cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith DoLS wedi ein galluogi i gynnal capasiti Aseswr Budd Pennaf o'r flwyddyn flaenorol, ynghyd â chapasiti ychwanegol i gynnal asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- I gynyddu ein capasiti ymhellach i lofnodi awdurdodiadau DoLS, mae rheolwyr tîm eraill wedi cael eu briffio a'u cefnogi i gynnal y dyletswyddau hyn, a byddant yn cefnogi cwblhad awdurdodiadau DoLS ymhellach wrth i ni geisio lleihau ein rhestr aros, wrth i ni baratoi ar gyfer gweithrediad Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.
- Mae 7 o geisiadau eraill wedi eu cyflwyno i'r Llys mewn perthynas ag Amddifadedd mewn Lleoliadau Cartref (DiDS). Mae hwn yn waith parhaus sydd wedi'i ymgorffori o fewn gwaith achos rheolaidd, yn y tîm Anableddau Cymhleth.

4.7 Llwyddiannau Allweddol 2022-23

- Rydym wedi cynnal lefel uchel o berfformiad o ran cwblhau 99.1% o ymholiadau adran 126 o fewn 7 diwrnod gwaith.
- Mae ffocws ar gwblhau archwiliadau o ansawdd wedi cael ei gynnal drwy gydol 2022/23. Mae'r archwiliadau wedi parhau i ganolbwyntio ar sampl o achosion diogelu i adolygu ansawdd a chysondeb gwaith diogelu, a'r broses Swydd ag Ymddiriedaeth (Adran 5). Maent yn darparu cyfle i ystyried ansawdd adroddiadau/atgyfeiriadau a dderbyniwyd, cyfranogiad gweithwyr proffesiynol, a'r cam gweithredu ar ddiogelu a gaiff ei gymryd mewn perthynas â'r risg a ganfyddir a sut y bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli wrth symud ymlaen. Mae'r archwiliadau hyn yn galluogi gwiriadau ac adolygiadau ymarfer rheolaidd, gan sicrhau nad yw arfer da wedi ei gyfaddawdu gan lwyddiant y dangosydd perfformiad.
- Mae'r llwyfannau digidol ar gyfer hwyluso cyfarfodydd strategaethau diogelu a chyfarfodydd strategaeth Adran 5, ynghyd â chynadleddau achosion Amddiffyn Oedolion yn parhau i weithio'n dda, ac maent nawr wedi cael eu mewnosod yn y gwasanaeth. Mae'r rhain yn gadarnhaol ac yn darparu cynrychiolaeth dda o ran gweithwyr proffesiynol ac aelodau teulu Oedolyn mewn Perygl, pan fo'n briodol.

- Yn ystod cyfnodau heriol yn y sector gofal cymdeithasol o ran recriwtio a chadw staff, mae'r tîm diogelu wedi cael ei ailstrwythuro i gefnogi parhad busnes, ac wedi bod yn llwyddiannus wrth recriwtio i bob swydd wag. Mae'r tîm nawr yn cynnwys rheolwr tîm, dirprwy reolwr tîm a 2 gweithiwr cymdeithasol profiadol gradd 9.
- Caethwasiaeth fodern: cyflwynwyd atgyfeiriad i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn ymwneud ag unigolion sydd wedi'u cyflogi mewn cartrefi gofal yn Sir Ddinbych. Cafodd proses ddiogelu ei gydlynu gyda phob partner perthnasol i gysylltu gyda'r prosesau Awdurdod Meistri Gangiau Cham-drin Gweithwyr (GLAA).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

Mae trefniadau Diogelu Oedolion yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r blaenoriaethau corfforaethol mewn perthynas â Sir Ddinbych iachach a hapusach, Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well a Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r gwasanaeth hwn eisoes yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad yn gwneud newidiadau i'r polisi.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Amherthnasol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- Mae prosesau Adran 5 yn parhau i brofi'n her mewn sawl maes, ond yn benodol mewn perthynas ag elfen weithredol y broses hon, h.y. arferion gwael yn erbyn camdriniaeth/esgeulustod, ac ati. Mae Grŵp Tasg a Gorffen Cenedlaethol adran 5 nawr wedi gorffen ei waith, ac yn aros am ganlyniadau'r ymgynghoriadau erbyn hyn.

Mae’r adborth cychwynnol yn awgrymu efallai nad yw eglurder ychwanegol ar gael, ac o bosib angen ystyriaeth bellach gan y byrddau rhanbarthol i adolygu’r egwyddorion i gefnogi gweithio ar y cyd gydag asiantaethau partner.

- Cyhoeddwyd oedi pellach mewn perthynas â dyddiad gweithredu Trefniadau Diogelu Rhyddid. Nid oes adborth wedi’i dderbyn o’r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2022, ac rydym yn parhau i aros am Godau Ymarfer wedi’u cwblhau. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi saib i unrhyw waith, gan gynnwys gwaith ynghylch datblygu deunyddiau hyfforddi drwy Ofal Cymdeithasol Cymru, nes bod terfynau amser gweithredu ar waith. Rydym yn disgwyl am y diweddariad nesaf i sicrhau bod y camau gweithredu angenrheidiol i ddiwallu ein rhwymedigaethau statudol ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid yn eglur. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio i leihau rhestr aros DoLS, a blaenoriaethu’r hyfforddiant Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer pob ymarferydd.
- Mae achosion llys yn parhau i gynyddu ac ni ellir amcangyfrif effaith y gwaith hwn ar gapasiti ein timau gweithredol, yn ogystal â’n cydweithwyr yn Nhîm y Gyfraith yn rhy isel. Er enghraifft, ar gyfer DiDS, fel arfer, mae’r Llys yn cymryd 9-12 mis o ddyddiad y cais i’w ystyried a gwneud Gorchymyn. O wybod bod oedi, rydym yn aml yn profi ceisiadau gan y Llys i ddarparu gwybodaeth ddiweddar, e.e. cynlluniau gofal, sydd weithiau’n creu gwaith ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithas a’r gyfraith. Gwneir cais am wybodaeth ddiweddar pan mae dyddiad dogfennaeth flaenorol wedi dod i ben wrth aros am ystyriaeth ynadol. Dyma sefyllfa sy’n codi ym mhob Awdurdod Lleol, ac nid yw’n unigryw i Sir Ddinbych.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Caiff pwerau’r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â’r mater hwn eu nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.